




Cymru
National Day Nurseries Association

Factsheet



**Dysgu Chwareus, Dr Sue
Allingham**

Cwricwlwm i Gymru



Dysgu Chwaraeus, Dr Sue Allingham

Galwodd Dr Sue Allingham ei ymgynghoriaeth yn 'Blynyddoedd Cynnar Allan o'r Bocs' yn dilyn sgwrs gyda ffrind. Wrth adlewyrchu ar ddiwylliant lle mae cynnydd wedi bod mewn ticio bocs a labelu plant, cytunodd y ffrindi ei fod yn cyfyngu plant ac yn eu atal rhag gallu datblygu eu potsensial i feddwl a dysgu.

Fel ymgynghorydd annibynnol, awdur a hyfforddwraig, mae Sue yn adnabyddus am ei ffordd ymarferol o weithio drwy hyfforddi, mentora, modelu, a gweithio ochr yn ochr â thimau. Mae ei diddordebau mewn addysgu a dysgu wedi arwain at waith ar amgylcheddau emosiynol a chorfforol fydd yn eu cefnogi.

Yn ddiweddar mae hyn wedi arwain at iddi gael hyfforddiant a chymhwyso yn y dull 'Brain-SET'. Mae'r dull yma wedi ei wreiddio yn gynnar yn natblygiad yr ymennydd ac wedi ychwanegu dimensiwn newydd i'w gwaith.

Mae gan bob plentyn hawl i amgylchedd dysgu sy'n seiliedig ar ddatblygiad, ac mae hyn yn golygu deall *pam* fod chwarae mor bwysig.

Felly sut mae 'chwarae' yn cyfateb i 'ddysgu'?

Wrth weithio gyda'r plant ieuengaf rydym yn aml yn defnyddio'r gair 'chwarae', ond pa mor aml ydyn ni'n myfyrio ar ystyr hynny yn ein harfer a'n darpariaeth? A pha mor aml mae'n rhaid i ni gyfiawnhau i bobl eraill pam fod 'chwarae' yn hanfodol i'n gwaith?

Nod yr adnodd hwn yw tanategu a llywio'r meddwl am beth yw 'chwarae', pam ei fod yn hanfodol i chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar (ECPLC), sut mae'n edrych, sut mae'n cael ei ddatblygu, a sut gellir ei esbonio yn ein lleoliadau.

*"Dylem fodelu **dull llawen o ddysgu**, ac annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant, gan wneud y defnydd gorau o'r eiliadau dysgadwy sy'n digwydd yn naturiol wrth i ni arsylwi neu gymryd rhan yn eu chwarae."*

(Galluogi Oedolion, Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir tudalen 8)

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae hawl pob plentyn i chwarae wedi'i gynnwys yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mabwysiadwyd y Confensiwn hwn ym 1989 ac mae wedi'i gadarnhau gan bob gwlad ac eithrio'r Unol Daleithiau a Somalia.

Er nad yw'r diffiniad hwn yn datgan yn benodol 'dull llawen o ddysgu' mae'n cael ei awgrymu yn y datganiad.

Mae 'chwarae' yn air bach sy'n cwmpasu cymaint.

Beth ydym yn ei olygu gyda'r gair 'chwarae'?

"Play is indeed the child's work, and the means whereby he grows and develops."

(Isaacs, 1929)

Mae'n anodd i lawer o oedolion ddeall cydberthynas rhwng gwaith a chwarae. Felly rydym angen diffiniad eglur pan mae rhywun yn gofyn i ni

Prif elfennau chwarae yw –

- Ei fod yn fywiog – gall hyn fod yn gorfforol, yn feddyliol neu'r ddau
- Ei fod yn dal sylw – mae'r plant wedi ymgolli yn yr hyn maent yn ei wneud ac mae'n anodd tynnu eu sylw oddi wrtho.
- Ei fod yn heriol, mewn modd positi - hynny yw ei fod yn rhywbeth diddordol i'w ddatrys
- Ei fod yn galluogi'r plentyn/ plant i wneud penderfyniadau
- Bod digon o amser i blant ymgolli'n llwyr yn yr hyn maent yn ei wneud.

Datblygodd Mihaly Csikszentmihalyi gysyniad o 'lif' (flow) ac fe'i diffiniodd fel rhywbeth angenrheidiol i gwblhau tasg yn llwyr. Gall hyn hefyd ei ddefnyddio i ddiffinio 'chwarae'.

Mae'n disgrifio wyth nodwedd 'llif':

1. Canolbwyntio'n llwyr ar y dasg
2. Eglurder pwrpas a nod, a gwobr mewn golwg ac adborth uniongyrchol
3. Trawsffurfio amser (cyflymu/arafu amser)
4. Mae'r profiad yn werth chweil, mae iddo ei ddiwedd ei hun
5. Mae'n rhwydd a di-ymdrech
6. Mae cydbwysedd rhwng her a sgiliau
7. Mae ymwybyddiaeth a gweithredu wedi plethu, lle mae hunan-ymwybyddiaeth wedi mynd yn angof
8. Mae teimlad o reolaeth dros y dasg.

<https://bit.ly/FlowCharacteristics>

Yn aml mae chwarae yn cael ei ddiystyru nes i ni sylweddoli ei fod yn hanfodol i pob cam datblygiad – mae datblygiad yr ymennydd a datblygiad corfforol yn cael eu cyfoethogi drwy chwarae. Os ydym yn defnyddio'r geiriau a danlinellir uchod pan ofynnir i ni ddiffinio chwarae rydym yn gallu newid barn y rhai sy'n ystyried ei fod yn weithgaredd gwamalgam tuag at safbwynt mwy deallusol, fel y nodir yn ngeiriau Susan Isaacs uchod.

Sut ydym ni'n defnyddio chwarae i danategu a datblygu dysgu?

Gyda diffiniad eglur o 'chwarae' mae'n dod yn haws i ddangos sut mae chwarae yn cael ei ddefnyddio i danategu a datblygu dysgu.

Meddai'r Athro Tina Bruce –

"Play is about wallowing in ideas, feelings and relationships and the prowess of the physical body."

<https://bit.ly/FroebelianApproach>

Yna mae'n dweud -

- Yn ystod chwarae rhydd sy'n llifo mae plant yn defnyddio galluoedd technegol, meistrolaeth a sgiliau maent wedi eu dysgu hyd yn hyn
- Maent yn hyderus ac mewn rheolaeth
- Mae chwarae yn dangos i oedolion beth mae plant eisoes yn ei wybod ac wedi ei ddysgu yn fwy effeithiol na chyflwyno dysgu Newydd.

Mae hyn yn adlewyrchu rhestr o'r prif elfennau ac yn golygu bod yn rhaid i ni ddeall beth yw ein rôl ni mewn chwarae.

Beth yw ein rôl fel oedolyn sy'n galluogi?

"When practitioners understand the crucial role of sensitive periods in facilitating early brain development, they can think more critically about their planning of the environment and what changes can be made to maximise each child's learning experience."

(Conkbayir, M. 2017 p18)

Fel 'oedolion sy'n galluogi' dywedir wrthym bod rhaid i ni –

- 'Fodelu agwedd llawen'
- 'Annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol'
- Gwneud y defnydd gorau o 'adegau lle gellir dysgu' sy'n digwydd yn naturiol.

Golyga hyn bod yn rhaid i ni ddarparu amgylchedd lle mae'r pethau yma yn gallu digwydd drwy ein ymarfer, darpariaeth ac addysgeg. Mae deall sut mae chwarae yn edrych yn golygu ein bod yn galluogi plant i ddatblygu sgiliau gweithredol – bydd rhai yn ffurfio rhai o'r 'eiliadau dysgadwy' rydym yn eu harsylwi.

"Just as an air traffic control system at a busy airport safely manages the arrivals and departures of many aircraft on multiple runways, the brain needs this skill set to filter distractions, prioritize tasks, remember rules and goals, and control impulses. These skills are crucial for learning and development."

developingchild.harvard.edu

Beth yw rôl y plentyn?

Agenda chwarae pwy yw hi? Er mwyn gwneud y mwyaf o brofiad dysgu'r plentyn, mae angen inni gofio bod pwrpas a bwriad yn rhan ohono. Myfyriwch ar y geiriau sydd wedi'u hamlygu hyd yma yn y daflen ffeithiau hon – sut mae penderfyniadau a syniadau'r plant yn cael eu gweithredu a'u hefelychu yn eich lleoliad?

Sut mae eich darpariaeth yn dangos i berson sy'n arsylwi bod syniadau plant wedi llywio ac wedi cael effaith ar -

- Heriau
- Ymroddiad
- Geirfa
- Gwybodaeth a sgiliau.

Sut mae'r plant yn cael eu cynnwys yn y gwerthuso o'r hyn sy'n digwydd?

“The Dignity of Children’s Play

Adults have occupations. Children have play. Adults want to be taken seriously and respected for what they do. So do children. Play is as purposeful and important to them as any adult endeavour. Play is the place in the child’s life in which he is the decision maker and the problem solver.

When adults take play seriously, they also take the child seriously and find opportunity not only to communicate meaningfully but also to afford the child the dignity so conspicuously absent in so many of his interactions with the adult world.

We provide visible opportunities for play, so why don’t our routines enable it?”

(Michael Gramling 2015 The Great Disconnect in Early Childhood Education pp88-89)

Cwestiynau cyffredin ar ‘chwarae’...

1. A yw'n bosibl iddo ddigwydd yn y dosbarth?
2. Os felly, sut mae'n edrych?
3. Beth mae ei angen? Adnoddau?
4. Yw'r chwarae yn bwrpasol os nad oes oedolyn yn bresennol ?
5. Ydio'n bwysig os nad yw beth sy'n digwydd yn amlwg i'r person sy'n arsylwi?

Atebion i'r cwestiynau yma yw –

1. Gall chwarae ddigwydd yn unrhywle ar unrhyw adeg
2. Mae wedi dod yn amlwg drwy'r ddogfen hon bod siap a ffurf chwarae yn unigryw i'r amser, lleoliad a'r plentyn/plant syn rhan ohono
3. I alluogi'r chwarae gymryd lle, nid oes angen adnoddau onibai am amser i gymryd rhan yn rhywbeth llawen a diddorol. Gall ffon bren a mwd fod yr adnodd

pwysicaf erioed yn y foment honno, does dim angen 'trefnu' adnoddau na phrynu tegannau drud

4. Nid yw ymyrraeth oedolion mewn chwarae yn bwrpasol onibai eu bod wedi derbyn gwahoddiad ac yn ymrywymo i'r rheolau a'r rolau sydd wedi eu penderfynu gan y plant. I fod wedi ymrwymo yn llwyr, mae'n rhaid i oedolion sicrhau nad oes ganddyn syniadau ymlaen llaw na'u bod yn ceisio llywio'r chwarae. Ni ddylai ymyrriaethau oedolion fod yn arwain y chwarae na chwaith fod yn gofyn cwestiynau 'caedig'
5. Ni fydd pob amser yn eglur beth sy'n digwydd na pham oherwydd bydd yr agenda wedi ei sefydlu gan y plentyn. Yn y modd yma, rhaid bod yn ofalus iawn sut rydym yn penderfynu ar yr 'eiliadau dysgu' a sut mae'r plant yn arwain ar y penderfyniad. Rhaid i'r person sy'n arsylwi wrando, sylwi, a dim ond ymyrru os oes cais iddynt wneud hynny. Nid rôl yr oedolyn yw barnu neu ragdybio beth sy'n digwydd. Er enghraifft, gall berson sy'n arsylwi nodi bod un plentyn penodol pob amser yn chwarae rôl y ci teuluol yn y Tŷ Bach Twt. I'r llygaid di-brofiad gallai hyn ymddangos fel petae'r rôl yma ddim yn bwysig ac nad yw'r plant eraill yn gweld y plentyn yn bwysig neu yn rhan o'r chwarae. Efallai fod hyn yn wir, ond hefyd gallai fod yn gywir bod rôl y ci yn ganolog o fewn y grŵp ac yn hanfodol i chwarae yn y Tŷ Bach Twt.

"Children's learning has personal meaning and content. It can follow unexpected trajectories. Children's ways of learning and knowing involve innovative thinking and thoughtful problem solving. Children's searches for relevant information show a connection with intellectual subject matter. This connection differs from the linear progressions of school-subject learning that might be present in school readiness expectations."

(Hedges, H. 2022. Children's Interests, Inquiries and Identities. Routledge p177)

Fel mae Tina Bruce yn dweud wrthym -

- Mae chwarae yn fecanwaith integredig sy'n dod a phob peth mae'r plentyn wedi ei ddysgu, ei wybod a'i ddeall at ei gilydd
- Mae wedi ei wreiddio mewn profiadau go iawn mae plant yn eu prosesu a'u archwilio
- Mae'n hunan-iacháu yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, yn dod â bywyd deallusol sy'n hunanymwybodol, cysylltiedig ag eraill, cymuned a'r byd tu hwnt
- Mae chwarae plentyndod cynnar yn dod yn adnodd pwerus ar gyfer bywyd yn y presennol a'r dyfodol.

<https://bit.ly/FroebelianApproach>

Casgliad

Felly beth yw 'dysgu chwareus'? Er bod y gair 'chwareus' yn cael ei ddefnyddio'n gyson, ac yn cael ei gamddefnyddio, mae'n aml yn cael ei gymryd yn llai o ddifrif fel modd o addysgu a dysgu.

I ddiwedd, dyma rai geiriau pwerau i'w defnyddio wrth esbonio, tanategu, a rhoi enghreifftiau o pam bod 'chwareus' yn elfen hanfodol o'n gwaith –

Mae chwareus yn:

- | | |
|----------------|------------------|
| ✓ Rhyddhad | ✓ Corfforol |
| ✓ Heriol | ✓ Modd o brosesu |
| ✓ Emosiynol | ✓ Ail greu |
| ✓ Galluogi | ✓ Adlewyrchu |
| ✓ Deniadol | ✓ Chwareus rôl |
| ✓ Archwiliadol | ✓ Unigol |
| ✓ Llawen* | ✓ Gwaith tîm. |

Mae'r rhestr yn di-ddiwedd a byddwch yn gallu ychwanegu llawer mwy drwy ddefnyddio'r ddogfen hon fel man cychwyn.

Ond yn fwy na dim, **mae chwareus yn rhan greiddiol o ddysgu**

*O.N. Mae'n bwysig nad yw chwareus pob amser yn llawen. Er enghraifft, gallai plant ddefnyddio chwareus i brosesu emosiynau anodd, gan arwain i sefyllfaoedd allai ymddangos yn drist neu'n bryderus. Mewn achosion fel hyn dylech weithredu yn unol a'ch polisiau a gweithdrefnau diogelwch a llesiant.

"The environment you construct around you and the children also reflects this image you have about the child. There's a difference between the environment that you are able to build based on a preconceived image of the child and the environment that you can build that is based on the child you see in front of you — the relationship you build with the child, the games you play."

(Your Image of the Child: Where Teaching Begins by Loris Malaguzzi)

"We were taught to say that play is the work of children. But, watching and listening to them, I saw that play was nothing less than Truth and Life"

(Vivian Gussin Paley The Boy Who Would be a Helicopter p17)

Cyfeirnod

- Isaacs, S. (1929) The Nursery Years. London: Routledge



National Day Nurseries Association

Taflen ffeithiau

***Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar www.ndna.org.uk/factsheets

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk